**Conwy Diogelach / Safer Conwy**
**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol / Anti-social Behaviour**
**Gwasanaeth Rheoleiddio a Thai / Regulatory Services**
*Pennaeth Gwasanaeth/Head of Service – Peter Brown*

**Cyfeiriad Post / Postal Address:** Blwch Post 1, CONWY, LL30 9GN
PO Box 1, CONWY, LL30 9GN

***Gweithio gyda'n gilydd i wneud ein cymuned yn ddiogelach***
***Working together to make our community safer***

Preswylydd
Parc Trinity
Conwy

Gofynnwch am / Please ask for: Emma Dowell
**01492 575113**
**saferconwy@conwy.gov.uk**
Ein Cyf / Our Ref: LUP/Parc Trinity
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date: Gorffennaf 2024

Annwyl Breswylydd


**CAMERA TCC DROS DRO - Parc Trinity**
Y lleoliad arfaethedig yw Trinity Avenue, Llandudno yn edrych allan dros ardal y parc.

Ysgrifennwn atoch i'ch hysbysu bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystyried gosod camera Teledu Cylch Caeëdig Man Cyhoeddus dros dro gerllaw eich cartref fel y dangosir isod:

*Llun1; Delwedd 'Google image' o'r lleoliad arfaethedig*




Llun*2*; Parth preifatrwydd y camera presennol




Mae'r camerâu hyn yn cael eu hariannu gan 'Brosiect Gwell Mannau Cyhoeddus' sy'n rhan o waith ar y cyd â'r Llywodraeth i wella ardaloedd lleol https://levellingup.campaign.gov.uk/what-is-levelling-up

Oherwydd bod eich cartref o fewn yr ardal y bwriedir gosod y camera, rydym yn rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud. Hoffem eich sicrhau y bydd unrhyw ffenestri sy'n uniongyrchol gyferbyn â chamera TCC yn cael eu sgrinio trwy ddefnyddio parthau preifatrwydd (sgwariau duon fel y gwelir yn yr enghraifft uchod) er mwyn ei gwneud yn amhosibl i unrhyw weithredydd ymyrryd â'ch preifatrwydd. https://www.conwy.gov.uk/hysbysiadaupreifatrwydd

Os hoffech chi roi sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Rheolwr TCC Conwy yn defnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn.